# Ydych chi wedi derbyn rhybudd ôl-ddyled?

FCA FINANCIAL CONDUCT AUTHORITY

## Dyma ychydig o wybodaeth bwysig i'ch helpu chi

Taflen wybodaeth
Rhif.005

Rydym yn deall y gall hwn fod yn gyfnod llawn straen, ond dydych chi ddim ar eich pen eich hun. Mae yna bobl sy'n gallu helpu a phethau y gallwch eu gwneud.

Os ydych chi'n teimlo eich bod wedi'ch llethu, neu os na allwch ymdopi â'ch sefyllfa ariannol, mae help ar gael i gefnogi eich lles meddyliol ar hyn o bryd. Ewch i **www.moneyhelper.org.uk/wellbeing** neu ffoniwch 0800 138 7777.

## Mae'n bryd gweithredu

1. **Mynnwch gyngor am ddim ar ddyledion.** Gallwch gael cymorth a chyngor **am ddim, sy'n anfeirniadol** ac annibynnol gan nifer o sefydliadau. Dylech ymweld yn gyntaf ag Offeryn Lleoli Cyngor ar Ddyledion MoneyHelper: **www.moneyhelper.org.uk/debt-advice-locator**. (gallwch hefyd ffonio 0800 138 7777 neu anfon neges WhatsApp +44 7701 342744).

   **Gweler drosodd** ar gyfer sefydliadau eraill y gallwch gysylltu â nhw.

   **Gall cynghorwyr dyled eich helpu gyda'r camau canlynol, gan ein bod yn gwybod y gallant fod yn anodd eu gwneud ar eich pen eich hun.**

2. **Gweithio allan faint o arian sy'n ddyledus gennych.** I wneud hyn, gallwch wneud rhestr o'r holl sefydliadau y mae arnoch arian iddynt. Gall cynghorydd dyledion eich helpu chi.

3. **Cysylltwch â'r platfform cymheiriad i gymheiriad (P2P) a drefnodd eich benthychiad.** Rhowch wybod iddynt eich bod yn cael problemau. Efallai y byddant yn gallu trafod opsiynau ar gyfer ad-dalu'r hyn sy'n ddyledus gennych.

4. **Adnabod pa ddyledion sydd â blaenoriaeth a'u rhoi yn gyntaf.** Mae rhai dyledion yn fwy brys nag eraill, er enghraifft, morgais, rhent, treth cyngor, neu ôl-ddyledion nwy neu drydan.

## Cadwch mewn cof

- **Efallai y bydd gennych hawl i 'le i anadlu'** – cyfnod penodol lle mae gennych amddiffyniadau cyfreithiol rhag camau a gymerwyd gan eich benthyciwr. Siaradwch â chynghorydd dyledion, a all amlinellu eich opsiynau.
- **Yn gyffredinol, nid yw benthyca pellach i ad-dalu dyledion yn syniad da**, yn enwedig os byddwch yn cymryd benthyciadau llog uchel – gallech dalu mwy yn y pen draw.
- **Efallai y byddwch yn gallu gofyn i lys am fwy o amser i ad-dalu dyled** – ond dim ond mewn rhai amgylchiadau. Siaradwch â chynghorydd dyledion cyn ystyried gweithredu yn y llys. Cadwch gopïau o lythyrau ac e-byst rhag ofn y bydd angen y rhain ar y llys.

## Gallai gwneud dim wneud pethau'n waeth

Gallwch fod yn talu mwy mewn llog a thaliadau yn y pen draw. Gallai colli taliadau effeithio ar eich statws credyd a'i gwneud yn anos cael credyd yn y dyfodol. Os byddwch yn parhau i beidio â gwneud taliadau, gallai hyn arwain at gamau cyfreithiol yn eich erbyn am ad-daliad neu ddychwelyd nwyddau sydd ar hurbwrcas.

**Gweler drosodd am fanylion ble i gael help a chyngor.**

## Cyngor am ddyledion – mae cymorth wrth law

**Cyngor am ddyledion yw lle cewch help gan bobl i ddelio â'ch dyled. Gallant eich helpu i siarad â phobl y mae arnoch arian iddynt a sefydlu cynllun ad-dalu y gallwch gadw a iddo.**

- Mae pobl sy'n cael cyngor yn datrys eu problemau'n gyflymach na'r rhai nad ydynt ac mae cannoedd o filoedd yn cael cyngor am ddim bob blwyddyn.
- Beth bynnag fo'ch sefyllfa, gall cyngor am ddyledion helpu. Y lle cyntaf ddylech fynd yw Offeryn Lleoli Cyngor ar Ddyledion MoneyHelper: **www.moneyhelper.org.uk/debt-advice-locator** neu 0800 138 7777 ar y ffôn neu +44 7701 342744 am sgwrs WhatsApp.

Gallwch hefyd gysylltu â'r sefydliadau dielw canlynol yn uniongyrchol am gyngor am ddim, anfeirniadol ac annibynnol ar y ffôn, ar-lein a wyneb yn wyneb:

### MoneyHelper
Am offer, gwybodaeth a chyngor ariannol am ddim, diduedd a hawdd cael gafael arnynt, ewch i **www.moneyhelper.org.uk** neu ffoniwch 0800 138 7777.

### Money Advice Scotland
Os ydych yn byw yn yr Alban, ewch i **www.moneyadvicescotland.org.uk** i ddod o hyd i fanylion cyswllt am gyngor ar ddyledion yn eich ardal leol.

### Cyngor ar Bopeth
I gael cyngor a gwybodaeth am ddyledion a phynciau eraill, ewch i'ch Cyngor ar Bopeth lleol neu ewch i **www.citizensadvice.org.uk**.

### Advice NI
Os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon, ffoniwch 0800 915 4604, e-bostiwch advice@adviceni.net neu ewch i **www.adviceni.net** am gyngor ar ddyledion.

### Cyngor ar Bopeth Cymru
Os ydych yn byw yng Nghymru, gallwch ffonio Adviceline ar 0300 330 1313 os ydych am siarad â rhywun am eich dyledion. Mae galwadau'n costio 12c y funud o linell dir, ac o 3c i 45c o ffôn symudol neu ewch i **www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/Dyled-ac-arian**.

### AdviceUK
Mae canolfannau aelodau yn cynnig cyngor ar ddyledion gan gynnwys cyngor arbenigol i gymunedau lleiafrifol a phobl ag anableddau – **www.adviceuk.org.uk** neu ffoniwch 0300 777 0107.

### Christians Against Poverty (CAP)
I gael cyngor am ddim ar ddyledion yn eich cartref, gwiriwch y cod post **www.capuk.org** yna ffoniwch 0800 328 0006.

### Llinell Ddyled Genedlaethol
Os ydych yn byw yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban ffoniwch 0808 808 4000 neu ewch i **www.nationaldebtline.org** am gyngor a gwybodaeth am ddyledion.

### Elusen Dyled StepChange
Am gyngor ar ddyledion ledled y DU ffoniwch 0800 138 1111 neu ewch i **www.stepchange.org**

### Business Debtline
Yn cynnig cyngor cyfrinachol am ddim ar ddyledion i'r hunangyflogedig a busnesau bach - **www.businessdebtline.org** neu 0800 197 6026.

## Sefydliadau defnyddiol eraill

### Cyngor Cyfreithiol Sifil
Efallai y cewch gymorth cyfreithiol os yw eich cartref mewn perygl. Edrychwch ar **www.gov.uk/civil-legal-advice** neu ffoniwch 0845 345 4345.

### Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol
Os oes gennych gŵyn na allwch ei datrys gyda'ch benthyciwr, efallai y bydd Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol yn gallu helpu – ffoniwch 0300 123 9123 neu 0800 023 4567 neu ewch i **www.financial-ombudsman.org.uk**

### Y Samariaid
Ffoniwch 0808 164 0123 neu e-bostiwch **jo@samaritans.org** i gael help os ydych chi'n cael trafferth ymdopi â phethau. Ni all y Samariaid gynnig cyngor ar ddyledion, ond gallant ddarparu cymorth a chymorth lles cyfrinachol am ddim i'r rhai sydd mewn trallod 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn.